

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb manwl o'r rhaglen BA (Anrh) Actio fel y'i cynigir o fis Medi 2023. A fyddoch chi'n nodi er bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir hyd yma, gall gael ei haddasu a'i newid mewn blynyddoedd i ddod. Ymgynghorir bob amser â myfyrwyr ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Mae pob blwyddyn o'r cwrs yn werth 120 credyd. Er mwyn symud drwy bob blwyddyn bydd angen i fyfyrwyr *fel arfer* lwyddo ym mhob modiwl.

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Dulliau Actio 20 credyd	Prosiectau Actio 30 credyd	Pontio 20 credyd
Cyfryngau wedi'u Recordio 1 10 credyd	Llais, Lleferydd, Testun [Rhan 2] 20 credyd	Perfformiadau Cyhoeddus 1 - 2 40 credyd
Llais, Lleferydd, Testun [Rhan 1] 20 credyd	Symud [Rhan 2] 20 credyd	Perfformiadau Cyhoeddus 3 - 4 40 credyd
Symud [Rhan 1] 20 credyd	Astudiaethau Sylfaenol 2 20 credyd	Perfformiad Cyhoeddus 5 neu Brosiect wedi'i Hunan-arwain 3 20 credyd
Astudiaethau Sylfaenol 1 20 credyd	Cyfryngau wedi'u Recordio 2 10 credyd	
Prosiect wedi'i Hunan-arwain 1 10 credyd	Prosiect wedi'i Hunan-arwain 2 10 credyd	
Genres Actio 20 credyd		

Blwyddyn 1

Dulliau Actio

Credydau: 20

Mae dwy elfen i'r modiwl hwn:

1) Dulliau ar gyfer Actio

Asesiad: 40% Asesiad parhaus

Trwy sawl wythnos o waith dosbarth ymarferol, bydd y myfyriwr yn defnyddio gwaith byrfyfyr ac ymarferion fel arf i alluogi'r actor i feithrin ymwybyddiaeth o gysylltiad, lle, ysgogiad, dewrder, gwirionedd, dychymyg a haelioni.

Bydd y myfyriwr yn archwilio'r cysyniad sylfaenol o actio o'r "hunan" a beth mae hynny'n ei olygu iddo ef neu hi fel unigolyn ac aelod o ensemble.

2) Dulliau ar gyfer Testun a Chymeriad

Asesiad: 60% Asesiad parhaus

Trwy sawl wythnos o waith dosbarth ymarferol ac archwilio golygfeydd, bydd y myfyriwr yn archwilio'r egwyddorion a'r technegau sylfaenol a ddefnyddir gan actorion proffesiynol i ddeall a chreu rôl ar gyfer perfformiad.

Gan ddefnyddio methodolegau ôl-Stanislawsky, bydd y myfyriwr yn ymchwilio i'w ymddygiad dynol ei hun ac yn ddiweddarach i destun y dramodydd er mwyn hwyluso'r gwaith o greu cymeriadau credadwy a deinamig.

Cyfyngau wedi'u Recordio 1

Credydau: 10

Asesiad: 100% Rihyrsio a ffilmio golygfeydd mewn amgylchedd proffesiynol

Cyfres o ddosbarthiadau ymarferol dros gyfnod o bum wythnos gan ddechrau gyda chyflwyniad i'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer perfformio ar gamera - drwy ddadansoddiad beirniadol o wahanol arddulliau actio sgrin ac arbrofi ymarferol yn y stiwdio. Gan ddefnyddio testun a gwaith byrfyfyr, daw'r myfyriwr yn ymwybodol o nodweddion ei lais a'i ddelwedd ei hun ac aiff ymlaen i ddarganfod ei potensial.

Dilynir hyn gan rihyrsio a chynhyrchu golygfa fer lle mae'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod yr wythnosau blaenorol yn cael eu profi dan amodau sy'n ymdebygu i arferion arferol y diwydiant.

Llais, Lleferydd, Testun [Rhan 1]

Credydau: 20

Asesiad: 30% Paratoi ac Ymarfer Personol, 40% Llais a Thestun, 30% Canu Grŵp

Mae'r modiwl yn dechrau gyda gwaith dosbarth mewn grŵp lle mae prosesau siarad ffisiolegol, seicolegol a dychmygus yn cael eu harchwilio drwy ymarferion ymarferol, arsylwi a thrafodaeth.

Mae dealltwriaeth ymarferol a chymhwyso sut i baratoi a chynnal defnydd iach, effeithlon a mynegiannol o'r llais yn cael ei ddangos drwy ymarfer tua chanol y flwyddyn.

Mae dosbarthiadau dilynol yn adeiladu ar y sylfeini hyn yn yr un modd, gan eu cymhwyso'n fwy penodol i destun ac i anghenion yr actor unigol gan ychwanegu tiwtorialau un i un. Datblygir defnydd gwaith llais i destun a'u creadigrwydd ag iaith wrth rannu darn o destun.

Ar yr un pryd, bydd y myfyriwr yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau canu grŵp gan ddilyn cynllun gwaith cyfochrog lle mae'r pwyslais ar sgiliau corfforol, techneg canu a strwythur sain er mwyn datblygu hyder a dawn gerddorol y myfyriwr wrth ganu.

Bydd myfyriwyr yn cael y cyfle i integreiddio techneg canu sylfaenol drwy waith grŵp a chorws yn y dosbarth a thrwy rannu gwaith yn rheolaidd bob tymor.

Mae paratoi annibynnol, ymarferion canu a rihyrsals yn rhan allweddol o ddatblygiad llais y myfyriwr.

Symud [Rhan 1]

Credydau: 20

Asesiad: 40% Paratoi ac Ymarfer Personol, 60% Cyfathrebu'r Corff

Mae'r modiwl hwn yn sefydlu'r corff fel testun darllenadwy ac "ysgrifenedwy" i'w ymchwilio drwy ysgogiadau artistig, corfforol, seicolegol a dychmygus mewn gwaith dosbarth ymarferol, arsylwi, a thrafodaeth a thrwy ymarfer un i un ac annibynnol.

Mae'n dechrau gydag archwiliad personol o anatomeg gymhwysol, a fydd yn archwilio defnydd arferol o'r corff ac yn datblygu corff mwy integredig, hylifol ac ymatebol sy'n gallu diwallu anghenion yr actor.

Wrth i'r gwaith barhau bydd y myfyriwr yn integreiddio'r unigolyn gyda'r ensemble ac mewn perthynas ag eraill, yn ogystal ag ystod o ddeunyddiau a syniadau.

Astudiaethau Sylfaenol 1

Credydau: 20

Asesiad: 50% Cyflwyniad Deialog Myfyriol, 50% Cyflwyniad Ymarferwyr Allweddol

Mae Astudiaethau Sylfaenol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cyfres barhaus o sesiynau ymarferol a damcaniaethol sydd wedi'u cynllunio i gyfeirio myfyrywyr at fyd actio proffesiynol. Mae llawer o'r modiwl hwn yn cael ei gymathu drwy gymhwyso'r strategaethau a ddatblygwyd i'r cwrs mwy. Mae tair elfen i'r modiwl hwn:

1) Astudiaethau Cyd-destunol 1

Bydd cyfres o seminarau yn archwilio nifer o ymarferwyr theatr a damcaniaethwyr y mae eu gwaith wedi newid yn sylweddol ffurfiau, confensiynau ac arferion theatrig a drammatig a oedd yn bodoli'n barod. Mae'r pwyslais ar 'ddysgu gweithredol' gyda myfyrywyr yn cymryd cyfrifoldeb am brosiectau ymchwil unigol ac mewn grwpiau bach sydd wedyn yn cael eu cyflwyno i weddill y grŵp.

2) Labordy Proffesiynol 1

Cyfres o sesiynau ymarferol sydd wedi'u cynllunio i roi pecyn cymorth o dechnegau a sgiliau i ategu a bwydo proses yr actor. Y pynciau dangosol yr ymdrinnir â hwy fydd:

- Darllen ar yr olwg gyntaf
- Dadansoddiad testunol
- Strategaethau niwro-amrywiol ar gyfer dysgu

3) Arfer Myfyriol 1

Mae'r modiwl hwn yn archwilio ystod eang o bynciau sy'n ymwneud â'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn fyfyrwr drama ac yn actor. Bydd sesiynau'n ymgysylltu mewn gweithdai rhyngweithiol ac ymarferol sy'n archwilio'r syniad o pwy ydynt a sut maent yn ymwneud â'i gilydd fel ymarferwyr drama

Prosiect wedi'i Hunan-arwain 1

Credydau: 10

Asesiad: 100% Perfformiad gwaith hunan-awduro

Cynlluniwyd y modiwl hwn i roi cyflwyniad i fyfyrwyr i agweddau allweddol ar greu perfformiadau. Mae'r dosbarthiadau ym mlwyddyn 1 yn canolbwyntio ar agweddau llenyddol at waith wedi'i hunan-arwain, gan wahodd myfyrwyr i archwilio eu hymarfer fel ysgrifenywyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r modiwl hwn yn archwilio crefft artistig ysgrifennu. Trwy gyfres o weithdai ymarferol a thrafodaethau grŵp, bydd myfyrwyr yn datblygu eu llais awdurol eu hunain ac yn dechrau ei roi ar waith drwy ysgrifennu, datblygu a rhannu eu darn perfformio unigryw eu hunain, a fydd yn cael ei berfformio a'i asesu fel diwedd y broses. Bydd myfyrwyr yn dysgu sut i ofyn cwestiynau perthnasol a chasglu adborth defnyddiol gan eu cyfoedion wrth ddatblygu eu gwaith a'i rannu'n anffurfiol drwy gydol y modiwl, gan gymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain.

Bydd myfyrwyr yn dysgu am ffurfiau naratif traddodiadol; perfformiad hunangofiannol; moeseg adrodd stori rhywun arall a chymhwysu'r y dysgu hwn mewn modd ymwybodol i'w hysgrifennu eu hunain. Bydd tiwtoriaid yn cyfeirio myfyrwyr at ddetholiad amrywiol o ddramâu a pherfformiadau cyfoes sydd ar gael drwy blatfformau digidol a byw. Anogir myfyrwyr i ddatblygu hyder mewn mynegi eu hymateb beirniadol eu hunain i waith pobl eraill drwy drafodaeth grŵp.

Byddant hefyd yn datblygu sgiliau cynhyrchu a chyfarwyddo elfennol i ddod â'r darn yn fyw i gynulleidfa.

Genres Actio

Credydau: 20

Asesiad: 50% Naturiolaeth: Rihyrsio a rhannu golygfeydd o ddrama, 50% Epig: Rihyrsio a rhannu gwaith sydd ar y gweill

Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar ddarganfyddiadau a wnaed yn y modiwl Dulliau Actio, gan ganiatáu i'r myfyrwyr archwilio ymhellach y dulliau a ddatblygwyd yng nghyd-destun symudiadau perfformio arddull allweddol ym meysydd actio ac mae wedi'i rannu'n ddwy elfen.

1) Naturiolaeth

Trwy gyfres o ddosbarthiadau ymarferol a rihyrsals a defnydd testunau dramatig gan awdurol naturiolaid y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, anogir myfyrwyr i archwilio syniadau "Naturiolaeth" "Realaeth" a "Drama Cyfnod" mewn perthynas â'u hactio.

Bydd y myfyriwr yn archwilio nid yn unig greu rôl ond hefyd byd y ddrama a thaith y cymeriad oddi mewn iddi, gan gynnwys rôl ymchwil yng nghreffft yr actorion ac ystyriaeth o'r perthnasoedd a geir o fewn y ddrama.

Mae rhannu gwaith gyda gweddill y grŵp a staff yn galluogi'r myfyriwr i archwilio natur "gwirionedd" o fewn perfformiad "pedwaredd wal".

2) Epig

Trwy gyfres o ddosbarthiadau ymarferol ac ymarferion mae'r elfen hon yn gwahodd myfyrwyr i ymestyn eu hegni emosiynol, lleisiol a chorfforol, eu hystod a'u pŵer – gan archwilio'r gwahaniaeth rhwng ymddygiad "gwirioneddol" a "normal".

Mae deunydd yn debygol o gynnwys amrywiaeth o destunau epig, gwleidyddol ac arddulliedig sy'n gofyn i'r myfyriwr gamu y tu hwnt i ffurfiau naratif confensiynol ac arddulliau perfformio naturiolaid.

Blwyddyn 2

Prosiectau Actio

Credydau: 30

Asesiad: 33% Shakespeare: Rihyrsio a pherfformio golygfa bennill, 33% Darn Cydweithredol: Creu a pherfformio darn o ddrama hygyrch, 34% Rihyrsio a pherfformio golygfeydd perfformiadol.

Cynlluniwyd y modiwl i adeiladu ar ac ehangu'r sgiliau a gyflwynwyd ac a archwiliwyd yn y modiwlau Dulliau Actio a Genres Actio.

Shakespeare: Cyfres o ddsbarthiadau grŵp, gwaith golygfa a arsylwir a galwadau rihyrsal lle mae cyd-destun dramâu Shakespeare, y modd o ddadansoddi a gwireddu'r testun, a'r berthynas â methodolegau actio eraill yn cael eu harchwilio gan arwain at rihyrsio a pherfformio detholiad o olygfeydd mewn penillion.

Cydweithio: Cyfres o ddsbarthiadau ymarferol a rihyrsals sy'n archwilio creu darn o waith, drwy fethodoleg ddyfeisio, sy'n ceisio canolbwyntio ar gydweithio rhwng artistiaid a gweithio fel ensemble. Bydd hwn yn gydweithrediad rhwng myfyrwyr actio a rhai disgyblaethau eraill, yn fwyaf nodedig cerddoriaeth. Bydd y prosiect yn arwain at gyflwyniad darn byr i gynulleidfa wâdd.

Perfformio: Trwy gyfres o ddsbarthiadau ymarferol a rihyrsals a gan ddefnyddio testunau cyfnod a chyfoes, anogir y myfyriwr i archwilio'r gofynion penodol a roddir ar yr actor mewn cyd-destun perfformiadol uwch. Rhoddir ystyriaeth arbennig i arsylwi a gwerthfawrogi'r berthynas actor/cynulleidfa ac i gonfensiynau cymdeithasol y cyfnod lle mae dosbarth, statws a rhyw yn chwarae rhan. Gan ddefnyddio comedi modern a chomedi cyfnod, testun uwch, drama gyfoes a chân grŵp, bydd y myfyriwr yn archwilio'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer mwy o "theatrigrwydd," medr a brafwra mewn actio.

Llais, Lleferydd, Testun [Rhan 2]

Credydau: 20

Asesiad: 30% Actio trwy Gân, 60% Arfarniad Llais, Lleferydd a Thestun, 10% Astudiaeth Tafodiaith

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i adeiladu ar a gwella'r sgiliau a gyflwynwyd ac a archwiliwyd yn ym modiwl Llais, Lleferydd a Thestun rhan 1.

Llais: Mae'r eflen hon yn dechrau gyda gwaith dosbarth mewn grŵp lle mae prosesau siarad ffisiolegol, seicolegol a dychmygus yn cael eu mireinio drwy ymarferion ymarferol, arsylwi, arddangos, a thrafodaeth.

Archwilir y defnydd o iaith yn feirniadol drwy ymgysylltu ag ystod o destunau heriol mewn gwahanol arddulliau ac amodau perfformio.

Yn gynyddol yn ystod y flwyddyn disgwylir i fyfyrwyr wneud gwaith annibynnol i gefnogi eu dysgu, ochr yn ochr â thiworialau un i un sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol.

Bydd cyfres o rannu anffurfiol yn digwydd lle gall myfyrwyr a staff fapio cynnydd drwy gydol y flwyddyn, gan arwain at gyflwyno rhaglen o destunau i aseswr allanol.

Acen a Thafodiaith: Ochr yn ochr â'r gwaith hwn bydd myfyrwyr yn astudio amrywiaeth o acenion sy'n briodol i'w castio, gan ddefnyddio'r cyfleoedd hyn i ddysgu sut i ddadansoddi ac atgynhyrchu acen yn annibynnol.

Canu: Ar yr un pryd, bydd y myfyrwyr yn cael cyfres o sesiynau unigol sy'n ceisio atgyfnerthu a chryfhau techneg canu'r myfyriwr tra'n datblygu ei repertoire unigol. Mae ffocws arbennig ar yr actor sy'n canu a sut i gyfathrebu naratif trwy gân.

Daw'r gwaith hwn i ben gydag wythnos ddwys o sesiynau ymarferol lle mae'r myfyriwr yn archwilio gofynion cyfathrebu cymeriad a sefyllfa drwy ofynion testun a sgôr gan arwain at gyflwyno unawd i staff a myfyrwyr y cwrs.

Symud [Rhan 2]

Credydau: 20

Asesiad: 50% Arddull a Ffurf, 50% Arfer Symud

Cynlluniwyd y modiwl i adeiladu ar a gwella'r sgiliau a gyflwynwyd ac a archwiliwyd ym modiwl Symud rhan 1.

Mae hyn yn dechrau gyda gwaith dosbarth grŵp lle mae prosesau ffisiolegol, seicolegol a dychmygus symud yn cael eu cysylltu a'u mireinio. Archwilir yn feirniadol y defnydd o'r corff drwy ymgysylltu ag amrywiaeth o arddulliau symud a dawns heriol o wahanol draddodiadau, arferion ac amodau perfformio.

Mae'r Modiwl hwn yn ymgysylltu'r actor yn gynyddol fel unigolyn, partner ac fel rhan o ensemble a chorws. Bydd cyfres o ddangosiadau ar raddfa fach yn cael eu cynnal i fapio eu cynnydd yn ystod y flwyddyn.

Astudiaethau Sylfaenol 2

Credydau: 20

Asesiad: 33% Ffug gyfweiliad, 34% Ffug glyweliad, 33% Gwneud cynnig

Mae tair elfen i'r modiwl hwn:

1) Astudiaethau Cyd-destunol 2

Gan barhau o waith a wnaed yn y modiwl Astudiaethau Cyd-destunol 1, gwahoddir myfyrwyr i archwilio confensiynau drama ymhellach, yn enwedig drwy archwilio cyfnod, genre, cyfrwng a'u symudiadau, ymarferwyr a gweithiau cysylltiedig. Byddant hefyd yn datblygu eu gwybodaeth am systemau a gweithrediad y diwydiant drama cyfoes.

2) Labordy Proffesiynol 2

Mae'n adeiladu ar waith y llynedd drwy ganolbwyntio ar ddulliau o sicrhau cyflogaeth, yn bennaf drwy dechneg clyweliad. Mae myfyrwyr yn arbrofi gyda strategaethau a thechnegau priodol, ac yn rhoi trosolwg o'r prosesau clyweliad y maent yn debygol o ddod ar eu traws ym meysydd theatr a chyfryngau wedi'u recordio. Gofynnir i fyfyrwyr gymryd rhan mewn clyweliadau a gynhelir gan gyfarwyddwyr castio proffesiynol.

Byddant hefyd yn mynd i'r afael â darllen dramâu a thrafod canon o ddramâu modern i ddatblygu mwy o hyder mewn trin testun drwy wella eu dealltwriaeth o sut mae sgriptiau drama yn cael eu llunio ac ymestyn eu gwerthfawrogiad o'r cysyniad o gynnwys awdurol. Bydd hyn yn ehangu cysylltiad y myfyriwr i'r canon dramatig drwy eu hamlygu i ddramâu sydd ag arwyddocâd yn natblygiad drama fodern, yn gwella eu sgiliau darllen ar yr olwg gyntaf drwy berfformiadau sgript yn y llaw ac yn rhoi cyd-destun eang i hanes, daearyddiaeth, cymdeithaseg a gwleidyddiaeth y dramâu a gyflwynir.

3) Ymarfer Myfyriol 2

Nod y modiwl yw adeiladu ar waith myfyriol Lefel 4 a dyfnhau arfer myfyriol fel arfer ymreolus a hunangynhaliol. Gyda ffocws arbennig ar eu gwaith sydd wedi'i Hunan-Arwain, bydd y myfyriwr hefyd yn gosod ei hun a'i ddysgu mewn cyd-destun beirniadol ehangach, gan edrych ar foesege a phwrpas yr artist a'i rôl fel dinesydd diwylliannol o fewn y celfyddydau a'r gymuned ehangach. Archwilir y bwch rhwng arfer gwirioneddol a delfrydol, gan alluogi'r myfyriwr i ystyried sut y mae'n dymuno llywio drwy'r diwydiant.

Mae'r elfen hon hefyd yn cwmpasu'r Fforwm Creadigol sy'n dwyn myfyrwyr a staff ynghyd i drafod cynnwys, themâu, effaith a moeseg deunydd cynhyrchu posibl a gynigir gan staff a'r garfan.

Cyfringau wedi'u Recordio 2

Credydau: 20

Asesiad: 50% Saethu Ffilm, 50% Drama Radio

Cynlluniwyd y modiwl i adeiladu ar a gwella'r sgiliau a gyflwynwyd yn y modiwl Cyfringau wedi'u Recordio 1:

Actio ar gyfer Sgrin: Cynhelir cyfres o ddsbarthiadau ymarferol dros gyfnod o bum wythnos gan ddechrau gydag ailgyflwyniad i'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer perfformio ar gamera cyn ymestyn i archwilio actio ffilm, offer dadansoddi sgriptiau, llais a symudiad, gwaith sgrin werdd, a dal symudiadau ymhlith eraill.

Dilynir hyn gan rihysio ar gyfer a chynhyrchu golygfa fer lle mae'r sgiliau a gafwyd drwy'r modiwl Actio ar gyfer Sgrin 2 yn cael eu profi dan amodau sy'n debyg i arferion arferol y diwydiant.

Sain: Cyfres o ddsbarthiadau lle mae'r technegau sydd eu hangen ar gyfer perfformiad sain wedi'i recordio - trwy ddadansoddiad beirniadol o ddarllediadau proffesiynol ac arbofi ymarferol yn y stiwdio - yn cael eu caffael a'u datblygu. Archwilir agweddau ar dechneg meicroffon, gwaith unigol ac ensemble, paratoi testunau, arfer da mewn stiwdio, codi'r testun oddi ar y dudalen, cyflwyno'n onest a chreu cymeriad a naws drwy genres drama radio, trosleisio masnachol, adrodd, a gemau ymhlith eraill.

Daw'r elfen i ben gyda recordiad darn o ddrama radio mewn stiwdio broffesiynol a gyda chriw proffesiynol.

Prosiect wedi'i Hunan-aruain 2

Credydau: 10

Asesiad: 100% perfformiad o waith hunan-awduro

Cynlluniwyd y modiwl hwn i ddatblygu ymhellach ac ehangu'r sgiliau a archwiliwyd yn y modiwl Prosiect wedi'i Hunan-Arwain 1.

Mae'n archwilio dulliau newydd o greu gwaith dramatig, lle mae myfyrwyr yn datblygu mwy o fewnwelediad i'r sgiliau a'r ymreolaeth sydd eu hangen ar gyfer cynhyrchu eu prosiect eu hunain. Gall y gwaith gynnwys dulliau ysgrifennu ac anllenyddol o wneud gwaith newydd.

Yn rhan dau, disgwylir i fyfyrwyr ddangos mwy o feistrolaeth ac awdurdod dros y deunydd a ddefnyddir megis ffurfiau ac arddulliau naratif aflinol, tra dylai'r deunydd ei hun olygu bod angen lefel sylweddol uwch o sgil a chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas na'r hyn sy'n ofynnol yn rhan un. Anogir y myfyriwr i ystyried yr effaith y bydd ei ddeunydd yn ei gael ar y byd, gan ei wneud yn gymdeithasol berthnasol.

Mae myfyrwyr yn gwneud gwaith ymchwil, rihysio a chynhyrchu er mwyn perfformio darn a hunan-gynhyrchwyd sy'n gwneud defnydd llawn o'r hyfforddiant a gafwyd ym mlwyddyn 2 eu hyfforddiant. Fel arfer disgwylir i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith fel perfformiad byw neu gyflwyniad digidol, gan arwain at ddarn o ddim llai na 25 munud ar gyfer theatr / 10 munud ar gyfer ffilm / 15 munud ar gyfer radio.

Blwyddyn 3

Prosiect Pontio

Credydau: 20

Asesiad: 100% Rihysio a pherfformio drama

Proses rihysio a chynhyrchu sy'n adeiladu ar ac yn cysylltu dysgu o brosiectau actio a sesiynau sgiliau blaenorol drwy eu cymhwysio i waith manwl ar destun cymhleth mewn amgylchedd rihysal. Mae staff actio, symud, llais a staff eraill yn cefnogi'r broses i sicrhau integreiddiad y gwaith.

Rhoddir pwyslais ar ddeall y broses a gweithio gyda'r ensemble, gan gynnwys cyfrifoldebau'r actor proffesiynol a'i rôl ochr yn ochr â'r cyfarwyddwr, ac adrannau eraill megis rheoli llwyfan, goleuo, sain a chynllunio.

Daw'r broses i ben gyda rhediad byr o'r ddrama gerbron cynulleidfa wâdd.

Perfformiad Cyhoeddus 1 – 2 a Pherfformiad Cyhoeddus 3 – 4

Credydau: 40

Asesiad:

50% Perfformiad Cyhoeddus 1, 50% Perfformiad Cyhoeddus 2, 50% Perfformiad Cyhoeddus 3, 50% Perfformiad Cyhoeddus 4

Mae myfyrwyr yn gweithio gydag amrywiaeth o gyfarwyddwyr proffesiynol a mewnlol i gynhyrchu pedwar perfformiad yn olynol – pob un yn cynnwys rihysio a pherfformiad drama lawn gerbron cynulleidfa gyhoeddus. Bydd myfyrwyr yn dod ar draws amrywiaeth o rolau, arddulliau, a lleoliadau a chraffu beirniadol manwl lle gallant ddatblygu eu crefft yn raddol a pharatoi eu hunain ar gyfer gwaith proffesiynol.

Bydd cynrychiadau'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu megis gweithdai ar gyfer ysgolion a grwpiau cynulleidfa, sesiynau holi ac ateb, a thasgau ymchwil sy'n paratoi'r myfyriwr ar gyfer rôl hwylusydd ac artist sy'n gymdeithasol gyfrifol.

Mae gwaith gyda therapyddion drama, mewn adborth ffurfiol a thrwy fforwm creadigol ar bob cynhyrchiad a thymor o waith, yn galluogi myfyrwyr i barhau i fyfyrion ar eu taith a'u lles fel artist.

Wrth i weithwyr proffesiynol eraill ymweld i wyllo cynyrchiadau mae'r myfyrwyr yn cael cyfle i weithio gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol y diwydiant megis cyfarwyddwyr castio, asiantau, actorion sefydledig ac eraill i'w gwneud yn barod ar gyfer diwydiant.

Perfformiad Cyhoeddus 5 neu Brosiect wedi'i Hunan-arwain 3

Credydau: 20

Perfformiad Cyhoeddus 5: NEWYDD

Asesiad: 100% Datblygu, rihyrsio a chynhyrchu drama newydd ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus

Mae myfyrwyr yn gweithio gydag awdur proffesiynol, dramodydd, a chyfarwyddwr o fewn y broses o ddrama wedi'i chomisiynu. Byddant yn gwyntyllu ac yn cynnal gweithdai ar y gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gychwyn ar broses rihyrsio ddwys dros bum wythnos lle caiff y darn ei rihyrsio a'i lwyfannu. Byddant wedyn yn perfformio yng Nghaerdydd cyn teithio i leoliad yn Llundain.

Disgwylir i'r myfyrwyr gyfrannu'n llawn at y broses, gan ymgysylltu â thimau'r coleg am gefnogaeth, hyrwyddo eu gwaith i ddiwydiant a meddwl yn rhagweithiol am safle'r gwaith yn y gymuned a'r cynulleidfaedd y maent yn perfformio iddynt.

NEU

Prosiect wedi'i Hunan-arwain 3

Asesiad: 100% Cynhyrchiad cyhoeddus o waith gwreiddiol

Mae'r modiwl hwn yn ddewisol ac yn adeiladu ar waith y modiwl Prosiect wedi'i Hunan-arwain ym mlynnyddoedd 1 a 2.

Mae myfyrwyr yn dewis, mewn ymgynghoriad â thiworiaid, faes perfformiad i'w archwilio a'i wneud yn ddarn newydd o waith. Byddant yn gosod eu hunain yn y rôl perfformio ganolog, er y gallant gydwethio fel y teimlant sy'n addas. Bydd y darn yn cael ei lunio ar gyfer perfformiad theatr.

Yna byddant yn gallu datblygu, rihyrsio a pherfformio eu darn i gynulleidfa gyhoeddus yn annibynnol, gan ddefnyddio mentoriaeth staff a gyflogir yn ofalus dros gyfnod cynaiedig cyn cyfnod dwys o 5 wythnos o rihyrsals gan arwain at gyfres o berfformiadau mewn lleoliad ar raddfa fach a chynhyrchu, gyferbyn â'r tymor ysgrifennu NEWYDD.

Disgwylir i'r myfyrwyr gyfrannu'n llawn at y broses, gan ymgysylltu â thimau'r Coleg am gefnogaeth, hyrwyddo eu gwaith i ddiwydiant a meddwl yn rhagweithiol am safle'r gwaith yn y gymuned a'r cynulleidfaedd y maent yn perfformio iddynt. Ar ôl perfformio'r darn bydd trafodaeth dan arweiniad y myfyriwr am ei lwyddiant a'r potensial ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol.